4.0 Gwirfoddolwyr

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Trosolwg

1. **Cyflwyniad**
2. **Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yng Nghymru**
3. **Sut ydw i'n dechrau arni?**
4. **Adnoddau am ddim**
5. **Cwestiynau am Fuddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a Chyllid**
6. **Gwybodaeth Bellach**

Cyflwyniad

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yw safon ansawdd y DU ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr.

Mae'r safon yn cynnwys 6 dangosydd o arferion da wrth reoli gwirfoddolwyr, sy'n seiliedig ar y meysydd allweddol canlynol:

- Cynllunio ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr
- Recriwtio gwirfoddolwyr
- Dewis a pharu gwirfoddolwyr
- Cefnogi a chadw gwirfoddolwyr

Caiff **Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr** ei reoli gan Fforwm Gwirfoddoli'r DU.

"Mae'n cyfleu'n allanol i bartneriaid ein bod wedi cadw lefel ein gwaith yn uchel iawn yr holl flynyddoedd hyn, hyd yn oed gyda newidiadau staff. – Mae'n braf cael rhywun allanol yn edrych ar yr hyn rydych chi'n ei wneud ac yn awgrymu pethau y gallech chi eu gwella, ac mae'n anfon neges i'ch gwirfoddolwyr eich bod yn eu gwerthfawrogi"

Rob Larkins
Prif Swyddog Gweithredol Vision 21

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yng Nghymru

CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) sy'n rheoli Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yng Nghymru. Yr un yw'r safonau, yr asesiad a'r achrediad i bob mudiad, ble bynnag y mae yn y DU. Bydd rhai gwahaniaethau yn y ffordd y caiff y safon ei rheoli ym mhob gwlad.

Er mwyn cael mynediad at **Fuddsoddi mewn Gwirfoddolwyr** drwy **CGGC**, mae angen i'ch prif swyddfa a'ch cyfeiriad cofrestredig fod yng Nghymru.

WWW

Dolen Allanol
Gellir lawrlwytho'r safon am ddim,
o dudalen groeso'r wefan.
Lawrlwytho'r Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Llwybr 1

Hanfodion IiV

Offeryn ar-lein am ddim yw Hanfodion IiV sydd wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer grwpiau a mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr. Bydd yr offeryn hwn yn eich helpu i wneud gwiriad iechyd sylfaenol o'ch arferion gwirfoddoli. Mae'n cynnwys y meysydd sylfaenol lle dylid dangos arferion da wrth gynnwys a rheoli gwirfoddolwyr.

Bydd yn eich helpu i feddwl am brofiadau gwirfoddolwyr a sut gall gwirfoddolwyr helpu i wneud y gwahaniaeth mwyaf i'ch achos.

Mae Hanfodion IiV yn seiliedig ar y chwe maes ansawdd sy'n llunio'r safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr newydd, felly bydd yn eich helpu chi i asesu ble rydych chi ac os ydych chi'n barod i gofrestru.

Mae Hanfodion IiV am ddim i'w gwblhau. Noder na fydd yn arwain at ddyfarniad IiV.

WWW

Dolen Allanol
Gellir gweld Hanfodion IiV ar wefan NCVO:
Hanfodion IiV

Llwybr 2

Cyn-asesiad ac Asesiad o'r Safon

Mae hon yn broses 6 cham er mwyn ennill y dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

Cam 1. Dechrau

Bydd gweithdy rhagarweiniol yn dechrau eich taith IiV ac yn eich helpu i feddwl am yr hyn rydych chi eisiau ei gyflawni. Bydd yn cael ei gynnal yn eich mudiad neu ar-lein a mwy na thebyg yn para oddeutu dwy awr. Gall eich asesydd hefyd eich cyfeirio at ffynonellau o wybodaeth a chymorth.

Cam 2. Hunanasesu

Byddwch chi'n cwblhau rhestr wirio hunanasesu er mwyn gweld ble mae eich mudiad ar hyn o bryd o ran y safon. Byddwch chi a'ch asesydd yn adolygu'r rhestr wirio ac yn trafod eich cynllun gwaith ar gyfer symud ymlaen.

Cam 3. Gwella arferion

Unwaith y byddwch chi a'ch asesydd wedi cytuno ar ba weithgareddau y bydd angen i chi eu cyflawni er mwyn bodloni'r safon, bydd angen i chi lunio cynllun gwella arferion i'w cwblhau, gan ystyried sut byddwch chi'n cynnwys pobl eraill yn eich mudiad.

Cam 4. Asesu

Bydd yr asesydd/aseswyr yn cwrdd â'ch mudiad, yn bersonol neu ar-lein a thros y ffôn ac yn siarad â gwirfoddolwyr, staff ac aelodau bwrdd, yn ogystal ag edrych ar ddogfennaeth ysgrifenedig, er mwyn asesu a ydych chi'n bodloni'r safon. Gall yr asesydd gyflwyno un o dair barn:

- Rydych chi wedi **BODLONI'R** safon
- Rydych chi wedi **BODLONI'R SAFON GYDAG AMODAU**
- NID YDYCH wedi **BODLONI'R** safon eto

Bydd yn rhoi adborth i chi ar lafar ac yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig llawn sy'n amlinellu ei ganfyddiadau.

Cam 5. Ennill a dathlu'r dyfarniad

Llongyfarchiadau, rydych chi nawr yn fudiad sydd wedi ennill y safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr! Bydd eich adroddiad wedi mynd drwy broses sicrhau ansawdd cyn y dyfarniad er mwyn cynnal ansawdd a chysondeb y safon. Achubwch ar y cyfle hwn i ddathlu eich cyflawniad, i ddiolch i'r rheini a oedd yn rhan o'r daith ac i ddweud diolch arbennig i'ch gwirfoddolwyr.

Cam 6. Gwelliant parhaus ac adnewyddu eich dyfarniad

Nawr eich bod wedi ennill y dyfarniad, dyma'ch cyfle i barhau i gadw at yr arferion da rydych chi wedi'u cyflawni ac i barhau i wella, gan gynnwys rhoi sylw i unrhyw bwyntiau datblygu a nodwyd yn eich adroddiad. Bydd CGGC yn cysylltu â chi i siarad am y broses adnewyddu a'r buddion i chi a'ch gwirfoddolwyr ac i ateb unrhyw gwestiynau y bydd gennych chi yn ystod y drydedd flwyddyn.

Gwybodaeth

Mae costau'r llwybr hwn yn dibynnu ar faint a strwythur eich mudiad ac yn dechrau o £1755.
Cofrestrwch ar y wefan hon i gael dyfynbris
[Gwefan Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr]

Llwybr 3

Asesiad â Chymorth

Mae'r llwybr hwn yn addas i fudiadau sydd newydd eu sefydlu yng Nghymru, neu rai sy'n newydd i reoli gwirfoddolwyr.

Gallai mudiadau gael mwy o hyblygrwydd o ran amser i gyflawni'r dyfarniad ar y llwybr hwn.

Byddai'r mudiad yn dilyn yr un **camau cyn-asesu** ac **asesu**, ond gallai gael cymorth ychwanegol trwy dalu £350 y diwrnod am gymorth pwrpasol sydd ei angen y tu hwnt i'r broses IiV safonol.

Sut ydw i'n dechrau arni?

1. Lawrlwythwch y safon i weld a yw hon yn feincnod priodol ar gyfer eich mudiad.
2. Trafodwch Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr o fewn eich mudiad, gydag ymddiriedolwyr/aelodau pwyllgor a chyda staff a gwirfoddolwyr.
3. Ystyriwch a hoffech anelu at gyflawni'r Safon. Gwnewch yn siŵr fod pawb yn cefnogi'ch penderfyniad.
4. Cofrestrwch ar-lein a siaradwch ag aelod o'r tîm IiV yng Nghymru. Bydd anfoneb yn cael ei hanfon am y ffi gofrestru, ac unwaith y bydd y taliad wedi'i dderbyn, bydd Asesydd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn cysylltu â chi.

Adnoddau am ddim

1. Gellir dod o hyd i gyfres o adnoddau ar gyfer mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ar wefan Cefnogi Trydydd Sector Cymru
2. Gall eich Canolfan Gwirfoddolwyr lleol gynnig cyngor penodol, er enghraifft, ar ddatblygu polisïau a gweithdrefnau priodol.

Cwestiynau ynghylch Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a Chyllid

Rydyn ni'n lobïo cyllidwyr yng Nghymru i gael mwy o gydnabyddiaeth o'r Dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr drwy ddigwyddiadau, gweminarau a chyfarfodydd.

Bydd llawer o gynlluniau grant, gan gynnwys Grantiau Gwirfoddoli Cymru a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ystyried cyllido'r gost a'r amser a dreuliwyd ar ennill y safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, fel rhan berthnasol o gais sy'n ymwneud â gwella cyfleoedd gwirfoddoli neu brofiad gwirfoddolwyr.

Bydd y tîm IiV yn falch o glywed am eich profiadau; er enghraifft, os ydych chi wedi cael cyllid i gyflawni'r dyfarniad, neu os yw'r dyfarniad wedi'i gydnabod mewn rhyw fodd gan gyrff cyllido.

Gwybodaeth bellach

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr
Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr
www.investinginvolunteers.co.uk

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
iiv@wcva.cymru

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.